# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 04 Rhagfyr 2023

## SL(6)418 – Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Peiriannau a Pheirianwaith) (Cymru) (Diwygio) 2023

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Peiriannau a Pheirianwaith) (Cymru) 2000 ("Rheoliadau 2000"). Mae Rheoliadau 2000 yn rhagnodi tybiaethau am beiriannau a pheirianwaith ar hereditament, neu mewn hereditament, at ddibenion prisio ar gyfer ardrethu.

Mae'r Atodlen i Reoliadau 2000 yn rhagnodi'r dosbarthau ar beiriannau a pheirianwaith y tybir eu bod yn rhan o hereditament at ddibenion prisio ar gyfer ardrethu, gydag eithriadau ar gyfer dosbarthau rhagnodedig penodol.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Dosbarth 1 yn yr Atodlen i Reoliadau 2000 er mwyn mewnosod dau eithriad pellach mewn cysylltiad â pheiriannau a pheirianwaith ynni adnewyddadwy a mannau gwefru cerbydau trydan. Mae'r eithriadau hyn yn gymwys mewn perthynas â diwrnodau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2024 a chyn 1 Ebrill 2035.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988

**Fe'u gwnaed ar:** 20 Tachwedd 2023

**Fe'u gosodwyd ar:** 21 Tachwedd 2023

**Yn dod i rym ar:** 01 Ebrill 2024